**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1450
Ein cyf/Our ref JMHSC/10425/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

deisebau@senedd.cymru

18 Rhagfyr 2024

Annwyl Carolyn,

**Deiseb P-06-1450 Llywodraeth Cymru i weithredu i amddiffyn pobl rhag heintiau a drosglwyddir drwy'r aer mewn lleoliadau gofal iechyd**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 10 Hydref ynglŷn â'r ddeiseb hon. Rwy'n ymddiheuro am yr oedi cyn eich ateb.

Byddaf yn rhoi sylw i bob un o'r meysydd yn y ddeiseb yn eu tro.

**Gwella ansawdd aer mewn lleoliadau iechyd a lleoliadau gofal cymdeithasol drwy fynd i'r afael ag awyru, hidlo aer a sterileiddio:**

Cyhoeddwyd y Memorandwm Technegol Iechyd Cymru WHTM 03-01 diweddaraf yn 2023. Ar 25 Mehefin 2021 cyhoeddodd Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG – Gwasanaethau Ystadau Arbenigol (NWSSP-SES) Hysbysiad Gwasanaethau Ystadau Arbenigol SESN 21/12 25/6 yn mabwysiadu HTM 03-01 a gyhoeddwyd gan GIG Lloegr fel mesur dros dro.

Mae'r rhain yn cael eu gweithredu trwy waith y Person Awdurdodedig ar gyfer awyru, y Grŵp Diogelwch Awyru a'r Peiriannwr Trwyddedu - Awyru (AE-V) a'r timau dylunio priodol yn unol â gwaith adeiladu o'r newydd a gwaith adnewyddu. Nid yw Person Awdurdodedig ar gyfer awyru yn rôl newydd; mae'r rhain wedi bod yn ofyniad ers HTM 03-01 yn 2017. Newidiwyd y diffiniad ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 2023 (WHTM 03-01).

Argymhelliad oedd Grwpiau Diogelwch Awyru yn HTM 03-01 yn 2021.

O ganlyniad i'r pandemig, canolbwyntiodd pobl ar bwysigrwydd awyru a gweithredwyd newidiadau cyn gynted â phosibl i wella systemau awyru. Fforwm llywodraethu cyffredinol o fewn y bwrdd iechyd yw'r Grŵp Diogelwch Awyru sy'n adolygu ac yn cael sicrwydd ar

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

faterion awyru yn rheolaidd. Mae'n grŵp amlddisgyblaethol gan gynnwys cynrychiolwyr clinigol a thechnegol.

Darperir yr asesiadau i'r byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG gan NWSSP-SES neu ddarparwr arall i'w hystyried ac i weithredu yn ôl yr angen.

O ran cais y deisebwr am adroddiad ar y statws awyru presennol yn ôl bwrdd iechyd ac ysbyty, nid yw NWSSP-SES yn cadw'r wybodaeth hon yn ganolog.

Mae awyru gwael yn fwy o risg o ran lledaenu pathogenau a drosglwyddir drwy'r aer. Dyma pam y rhoddir canllawiau ar bwysigrwydd awyru effeithiol ac effeithlon.

Mae systemau awyru mewn ysbytai yn cael eu monitro trwy systemau rheoli adeiladau sy'n adrodd yn ôl i'r adrannau ystadau perthnasol am ddiffygion, ac weithiau i'r adrannau clinigol penodol yn dibynnu ar y system a'r gwasanaeth a ddarperir.

Mae ardaloedd clinigol yn cael eu profi yn unol â gofynion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru, ond nid yw monitro CO2 penodol wedi'i gynnwys yn yr argymhellion profi ar hyn o bryd. Gall sefydliadau iechyd gynnal profion ad-hoc yn unol ag anghenion y Grŵp Diogelwch Awyru.

**Ailgyflwyno gwisgo masgiau fel mater o drefn yn y lleoliadau hynny (yn unol ag argymhelliad Sefydliad Iechyd y Byd ar 20 Rhagfyr 2023), yn enwedig masgiau anadlol:**

Mae trosglwyddiad Covid-19 o berson-i-berson yn digwydd yn bennaf trwy drosglwyddiad uniongyrchol (sef diferion yn glanio ar bilenni mwcws) neu drwy drosglwyddiad drwy'r aer. Mae masgiau llawfeddygol sy'n atal hylif yn darparu amddiffyniad rhag tasgiadau a defnynnau.

Mae asesiadau risg Iechyd Cyhoeddus Cymru i'w defnyddio gyda chleifion sydd â haint anadlol acíwt, yn cefnogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i reoli'r risgiau o haint mewn lleoliadau clinigol, lleoliadau cleifion allanol a lleoliadau cymunedol acíwt. Mae'r set o fesurau lliniaru a argymhellir wedi'u nodi yn nhrefn blaenoriaeth yn unol â'r hierarchiaeth mesurau rheoli. Mae'r Rhagofalon Safonol Rheoli Heintiadau (SICP) – y mae 10 ohonynt – a'r rhagofalon sy'n seiliedig ar drosglwyddiad yn darparu dull cynyddrannol o reoli'r risg o drosglwyddiad mewn ardaloedd clinigol.

Mae masgiau llawfeddygol sy'n gwrthsefyll hylif yn un elfen o gyfarpar diogelu personol (PPE) sydd â'r bwriad o ddarparu amddiffyniad rhag trosglwyddiad defnynnau. Os oes angen gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol ar gyfer claf a gadarnhawyd sydd â haint anadlol acíwt, neu a amheuir sydd â haint anadlol acíwt, yna masgiau FFP3 fyddai'r PPE a argymhellir yn unol â'r rhagofalon seiliedig ar drosglwyddiad.

Pan argymhellir ystyried y defnydd cyffredinol o fasgiau, byddai'r math o fasg yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys y math o haint a natur y gofal clinigol neu'r driniaeth sy'n cael ei rhoi.

**Ailgyflwyno profion Covid fel mater o drefn - mae'n asymptomatig;**

Mae Covid-19 wedi bodoli ers mwy na phedair blynedd ac mae imiwnedd naturiol wedi cronni ymhlith y cyhoedd yn ystod y cyfnod hwn yn dilyn tonnau olynol o heintiau. Mae'r

cyfuniad o imiwnedd naturiol ynghyd â'r brechlyn, a roddwyd am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 2020, wedi cynyddu imiwnedd y boblogaeth i'r firws ymhellach.

Yn ei gyngor diweddaraf ym mis Awst 2024, mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu yn nodi bod "y sefyllfa bresennol yn un lle mae lefelau uchel iawn o imiwnedd yn y boblogaeth yn erbyn y feirws SARS-CoV-2 ac ymddangosiad is-amrywiolion omicron newydd nad ydynt yn gysylltiedig ag afiechydon mwy difrifol o'i gymharu ag amrywiolion cynharach."

Yn unol â'n strategaeth o fyw ochr yn ochr â Covid-19, mae ein Canllawiau i gyflogwyr yn amlinellu mesurau rheoli iechyd y cyhoedd, y gellid eu defnyddio i gefnogi gweithleoedd i reoli'r risg yn sgil y clefydau trosglwyddadwy mwyaf cyffredin, sy'n cynnwys Covid-19, y ffliw a norofeirws.

Mae'r mesurau hyn yn rhoi cyngor i'r gweithle, gan gynnwys y risg sy'n gysylltiedig â staff sydd â symptomau anadlol a sut i reoli hyn. Mae'r rhai yr ystyrir eu bod yn wynebu risg uwch o fynd yn ddifrifol wael oherwydd Covid-19 yn gymwys i gael profion a thriniaeth wrthfeirysol.

O ran salwch staff ers 2020, gwelodd pandemig Covid-19 gynnydd sylweddol mewn cyfraddau salwch ymhlith staff y GIG, ac mae'r cyfraddau hyn wedi aros yn uchel.

Mae'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu yn cynnwys nifer o gamau gweithredu gyda'r nod o fynd i'r afael ag absenoldeb salwch:

- **Polisïau gweithio hyblyg**: Mae'r Cynllun yn pwysleisio'r angen i greu mwy o gyfleoedd ar gyfer trefniadau gweithio'n hyblyg i helpu i wella cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith i weithwyr.
- **Gwell Cymorth Llesiant**: Mae nifer o fentrau i wella cymorth iechyd meddwl a llesiant i staff, gan gynnwys ymyrraeth gynnar a rhaglenni dychwelyd i'r gwaith cynaliadwy.
- **Modelau Gweithlu Gorau:** Mae'r Cynllun yn cynnwys ymdrechion i ailgynllunio rolau a strwythurau tîm i helpu i leihau lefelau gorflinder ac absenoldeb salwch.
- **Polisïau Rheoli Absenoldeb**: Trwy weithredu gweithdrefnau rheoli absenoldeb a pholisïau llesiant effeithiol gallwn gefnogi gweithwyr i ddychwelyd i'r gwaith a lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn absennol eto.

**Sicrhau bod llawlyfrau staff yn ymdrin yn llawn ag atal haint a drosglwyddir trwy'r aer:**

Gellir dod o hyd i'r llawlyfrau drwy'r dolenni canlynol:
NIPCM - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)
ARI - Heintiau Anadlol Acíwt - Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Darparu gwybodaeth iechyd y cyhoedd am ddefnyddio masgiau anadlol a hidlyddion aer HEPA yn erbyn heintiau a drosglwyddir drwy'r awyr:**

O ran y diffiniad o effeithiolrwydd treialon puro aer HEPA, mae angen cynnal asesiad ym mhob lleoliad unigol lle nad ystyrir bod yr awyru'n ddigonol. Mae profion wedi cael eu cynnal ar lefel bwrdd iechyd. Nid yw hwn yn cael ei reoli'n ganolog, a byddai'r canlyniadau ar gael gan y byrddau iechyd unigol.

Cynhaliodd y Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol brofion ar burwyr aer rhwng Tachwedd 2022 a Gorffennaf 2024; cynhaliwyd 13 prawf.

Nid oes safon diwydiant cydnabyddedig ar gyfer profi purwyr aer (terfynau ar gyfer gronynnau neu leihau bacteria yn yr awyr) ond mae dulliau profi achrededig Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig ar gyfer cyfrif gronynnau a bacteria a drosglwyddir drwy'r aer.

Nid oes dull cenedlaethol o brofi purwyr aer, mae unedau wedi'u profi yn ôl y galw ac nid ydym yn ymwybodol o unrhyw astudiaethau lle mae cyfraddau heintio'n cael eu monitro mewn perthynas â phurwyr aer.

Nid oes gan y Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) aelodau sefydlog heblaw Prif Gynghorydd Gwyddonol Llywodraeth y DU. Mae cyfranogwyr SAGE yn arbenigwyr gwyddonol o fewn y llywodraeth, y byd academaidd ac amryw o feysydd sy'n berthnasol i natur yr argyfwng a'r materion penodol sy'n cael eu hystyried. Mae'r cyfranogwyr yn amrywio o gyfarfod i gyfarfod, yn dibynnu ar yr arbenigedd sydd ei angen. Yn ystod y pandemig roedd y Prif Gynghorydd Gwyddonol ar gyfer Iechyd yn Llywodraeth Cymru, Prif Gynghorydd Gwyddonol Llywodraeth Cymru a chyd-gadeiryddion y Grwpiau Cyngor Technegol yn gyfranogwyr.

Byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl y byddai naill ai Prif Gynghorydd Gwyddonol Llywodraeth Cymru, y Prif Gynghorydd Gwyddonol ar gyfer Iechyd a/neu'r Prif Swyddog Meddygol yn cael gwahoddiad i gyfrannu pe bai SAGE yn gorfod rhoi cyngor gwyddonol annibynnol eto i gefnogi gwneud penderfyniadau yn Ystafell Friffio Swyddfa'r Cabinet pe bai argyfwng cenedlaethol sy'n berthnasol i bobl Cymru, Cymru neu gymwyseddau datganoledig. Yn unol â chanllawiau SAGE, byddai'r union aelodau o Lywodraeth Cymru yn dibynnu ar natur yr argyfwng neu'r digwyddiad.

Yn olaf, o ran heintiau nosocomiaidd, er bod rhai achosion o hyd lle caiff pobl eu heintio gyda Covid-19 yn yr ysbyty, mae derbyniadau cyffredinol gydag unrhyw sôn am Covid-19 wedi gostwng, gyda 6,574 o dderbyniadau yn 2023-24, o'i gymharu â 19,196 yn 2020-21.

Mae mesurau atal a rheoli heintiau sefydledig ar waith mewn lleoliadau ysbyty i liniaru lledaeniad yr haint. I'r rhan fwyaf o bobl, mae Covid-19 fel unrhyw salwch anadlol cyffredin arall a dylid ei reoli yn unol â hynny. Mae'r rhai yr ystyrir eu bod yn wynebu risg uwch o fynd yn ddifrifol wael oherwydd Covid-19 yn gymwys i gael profion a thriniaeth wrthfeirysol.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care